
**Gweithdrefnau prynu ar gyfer nwyddau a gwasanaethau ac eithrio deunydd rhaglenni**
**Siartiau llif, gweithdrefnau a nodiadau**

Diweddarwyd Ionawr 2024

## Siart llif prynu




[1]Nid yw'n cynnwys caffael, datblygu, cynhyrchu neu gyd-gynhyrchu deunydd rhaglenni y bwriedir ei ddarlledu ar deledu neu ar wasanaeth clyw-weledol ar-alw wedi eu heithrio. Nid yw'r gweithdrefnau yma yn ymwneud â chaffael gwaith adeiladu.

**NODYN 1 – ARIAN CYHOEDDUS**

Fel corff cyhoeddus, rhaid i S4C sicrhau bod unrhyw gytundeb yr ymgymerir ag ef ar gyfer caffael nwyddau[2] neu wasanaethau wedi ei gwblhau yn unol â gweithdrefnau prynu S4C. Mae cytundebau caffael, datblygu, cynhyrchu neu gyd-gynhyrchu deunydd rhaglenni y bwriedir ei ddarlledu ar deledu neu ar wasanaeth clyw-weledol ar-alw wedi eu heithrio.

Dau o brif ddibenion y gweithdrefnau prynu yw:

- sicrhau bod S4C yn cael gwerth gorau wrth wario arian cyhoeddus; a
- sicrhau cydymffurfiaeth â gwerthoedd ac egwyddorion caffael fel a wneir yn ofynnol o dan Reoliadau Cytundebau Cyhoeddus 2015 (RhCC 2015) a'r ymarfer da nodwyd yn Nodyn Polisi Caffael Cymru (WPPN) 07/21 a 02/22.

Lle bo gwerth y cytundeb yn uwch na £50,000 heb gynnwys TAW dros gyfnod y cytundeb, rhaid i'r cytundeb gael ei arwyddo gan:

(a) yr aelod o staff sydd wedi negodi'r cytundeb neu sydd wedi gwneud y
(b) penderfyniad i wobrwyo'r cytundeb; **ac hefyd gan naill ai aelod o'r Tîm Rheoli neu'r Prif Swyddog Technegol (CTO)**

Dylai'r Aelod o'r Tîm Rheoli neu'r Prif Swyddog Technegol fod yn annibynnol h.y. rhywun nad oedd yn gyfrifol am negodi neu wneud penderfyniad ar wobrwyo'r cytundeb.

Cyn llofnodi'r contract, rhaid i'r Aelod annibynnol o'r Tîm Rheoli neu CTO fod yn rhesymol fodlon:

- bod y weithdrefn gaffael gywir wedi ei dilyn;
- bod gofynion y weithdrefn berthnasol wedi eu bodloni;
- os oes unrhyw rhanddirymiadau wedi cael eu defnyddio, maent wedi cael eu hawdurdodi gan y Prif Swyddog Gweithredol neu lofnodwr awdurdodedig arall (yn unol â'r polisi) yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r Ffurflen Awdurdod Tendr/Dyfynbris Cyfyngedig (Atodiad 2);
- y bydd S4C yn cael y gwerth gorau, yn enwedig (mewn achosion lle nad y cais llwyddiannus sy'n cynnig y pris isaf) bod y seiliau dros benodi'r cynigydd llwyddiannus yn rhesymol ac yn briodol; a
- nid oes unrhyw amgylchiadau eraill yn hysbys i S4C (neu y dylid yn rhesymol fod yn hysbys i S4C) pam y byddai'n amhriodol penodi'r cynigydd dan sylw (e.e. gwrthdaro buddiannau).

Os yw'r Aelod annibynnol o'r Tîm Rheoli neu'r CTO yn rhesymol fodlon mai dyma'r achos, dylid cofnodi hyn yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r Ffurflen Dyfarnu Contract (Atodiad 3).

Dylai pob cytundeb arall gael ei arwyddo yn unol ag atodiad arwyddo S4C (ar gael o'r Adran Gyllid).

[2] Mae pob cyfeiriad at gytundeb am nwyddau yn y gweithdrefnau hyn yn gyfeiriad at "gytundeb cyflenwad cyhoeddus" yn unol â'r diffiniad yn y Rheoliadau Cytundebau Cyhoeddus 2015.

**NODYN 2 - PRISIO CYTUNDEB**

Wrth asesu gwerth cytundebau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau, dylid cyfrifo gwerth y cytundeb ar sail anghenion S4C ac yn unol â'r canllawiau isod.

**Cytundebau ar gyfer Nwyddau a Gwasanaethau**

Bydd y cyfrifiad o werth amcangyfrifedig caffaeliad yn seiliedig ar y cyfanswm sy'n daladwy, gan gynnwys unrhyw fath o opsiwn ac adnewyddu fel y'u nodir yn benodol yn y dogfennau caffael. Pan fo'r contract yn darparu ar gyfer gwobrau neu daliadau i ymgeiswyr neu dendrwyr, dylai'r rhain gael eu hystyried wrth gyfrifo gwerth amcangyfrifedig y caffaeliad. Bydd y gwerth amcangyfrifedig yn cael ei gyfrifo fel ag y mae ar yr adeg y mae'r alwad am gystadleuaeth yn cael ei hanfon neu, mewn achosion lle na ragwelir galwad am gystadleuaeth, fel ag y mae ar yr adeg y mae S4C yn cychwyn ar y drefn gaffael.

<u>Cydgrynhoi</u>

Os yw S4C yn ymrwymo i gyfres o gytundebau ar gyfer yr un nwyddau neu wasanaethau, neu nwyddau neu wasanaethau tebyg, neu gytundeb y gellir ei hadnewyddu, rhaid amcangyfrif gwerth y cytundeb ar sail y canlynol:

(a) Ar gyfer mathau tebyg o wasanaethau neu nwyddau a brynwyd dros flwyddyn drwy gytundebau ar wahân - cyfrifwch neu amcangyfrifwch gyfanswm gwerth y gwasanaethau/ nwyddau a brynwyd dros y 12 mis blaenorol.

(b) Lle bodlonir un gofyniad ar gyfer cyflenwadau neu nwyddau drwy fwy nag un cytundeb - cyfrifwch werth cyfunedig y cytundebau.

(c) Lle caffaelir un darn o waith drwy fwy nag un cytundeb - cyfrifwch werth cyfunedig y cytundebau.

<u>Gwaharddiad ar hollti cytundebau</u>

Nid yw'n dderbyniol i hollti cytundebau neu fel arall i werthuso cytundeb neu ddarpariaeth mewn unrhyw ffordd er mwyn cynnwys y pryniant o fewn trothwy is neu er mwyn osgoi rheolau caffael. Er enghraifft, nid yw'n dderbyniol i hollti cytundeb ar gyfer nwyddau neu wasanaeth sy'n cynnwys tair elfen yn dri chytundeb ar wahân heblaw y gellid dangos cyfiawnhad gwrthrychol dros wneud hynny, ac ni all y fath gyfiawnhad gynnwys "osgoi gweithrediad y rheolau caffael".

**Cytundeb ar gyfer Nwyddau yn unig**

Dylid amcangyfrif gwerth y cytundeb drwy gymryd i ystyriaeth gwerth cyfansawdd y nwyddau i'w prynu gan nodi'r eglur a yw hynny'n cynnwys TAW neu beidio. Wrth gyfrifo "gwerth" rhaid cymryd i ystyriaeth yr arian ac unrhyw werth arall a roddir i'r darparwr ar gyfer y nwyddau.

Yn achos contractau cyflenwi cyhoeddus neu gontractau gwasanaeth sy'n rheolaidd eu natur neu y bwriedir eu hadnewyddu o fewn cyfnod penodol, rhaid i'r cyfrifiad o werth amcangyfrifedig y contract fod yn seiliedig ar y naill neu'r llall o'r canlynol:—

- cyfanswm gwerth gwirioneddol y contractau olynol o'r un math a ddyfarnwyd yn ystod y 12 mis blaenorol neu'r flwyddyn ariannol flaenorol wedi'i addasu, lle bo modd, i gymryd i ystyriaeth y newidiadau mewn nifer neu werth a fyddai'n digwydd yn ystod y 12 mis yn dilyn y contract cychwynnol;

- cyfanswm gwerth amcangyfrifedig y contractau olynol a ddyfarnwyd yn ystod y 12 mis yn dilyn y cyflenwad cyntaf, neu yn ystod y flwyddyn ariannol pan fo hynny'n hwy na 12 mis.

**Cytundeb ar gyfer Gwasanaethau yn unig**

Gwerth y cytundeb
Wrth gyfrifo gwerth cytundeb am wasanaethau dylid cyfrifo'r **cyfanswm** sy'n daladwy ar gyfer y gwasanaethau yn ystod **cyfnod llawn y cytundeb** yn cynnwys unrhyw gyfandaliad, comisiwn, ffioedd, premiwm, llog neu gydnabyddiaeth arall.

Felly, os yw cytundeb dwy flynedd ar gyfer gwasanaethau yn gost o £30,000 y flwyddyn, yna £60,000 yw gwerth y cytundeb.

Amcangyfrifon
Os nad yw'n bosibl datgan gwerth y cytundeb yn glir oherwydd systemau prisio cymhleth, rhaid cyfrifo amcangyfrif o'r gwerth. Cyfrifir amcangyfrif o'r gwerth fel a ganlyn:

- yn achos cytundebau cyfnod penodol, pan fo'r cyfnod hwnnw yn llai na neu'n hafal i 48 mis, cyfanswm gwerth eu cyfnod llawn;

- ar gyfer cytundebau â chyfnod amhenodol, rhaid i chi gyfrifo'r taliadau misol amcangyfrifedig wedi'u lluosi â 48.

Opsiynau i ymestyn
Os oes opsiwn i ymestyn y cytundeb, rhaid prisio'r cytundeb ar y sail bod yr opsiwn yn cael ei arfer.

Cytundeb cymysg

Lle mae cytundeb yn cynnwys nwyddau a gwasanaethau, ac yn gytundeb i'w dendro yn unol â'r RhCC 2015, bydd angen dosbarthu'r cytundeb fel naill ai cytundeb ar gyfer "Nwyddau " neu gytundeb ar gyfer "Gwasanaethau". Dosberthir y cytundeb yn dibynnu ar ba elfen sydd â'r gwerth uchaf. Lle bydd cytundeb yn cynnwys cyfuniad o waith adeiladu a nwyddau neu wasanaethau, caiff y cytundeb ei ddosbarthu yn unol â phrif ddiben y cytundeb, nid y gwerth uchaf. Rhaid cymryd gofal arbennig wrth ystyried caffael gwaith adeiladu gan fod y trothwyon Ewropeaidd yn wahanol i'r rheini ar gyfer cytundebau "Nwyddau" a gwasanaethau. Nid yw'r canllawiau yma yn delio efo gwobrwyo cytundebau ar gyfer gwaith adeiladu, dylid cysylltu efo'r Tîm Cyfreithiol am arweiniad pellach.

**NODYN 3 – STRATEGAETH RHANNU CYTUNDEB**

Yng nghyd-destun pob cytundeb dros y Trothwy RhCC 2015, rhaid i S4C **ystyried a yw'n briodol** rhannu'r cytundeb yn elfennau llai er mwyn galluogi Mentrau Bach a Chanolig (SME) i gael cyfle i ennill un neu fwy o elfennau. Nid yw hyn yn effeithio ar y rheolau gwerthuso cytundeb uchod, os yw gwerth cyffredinol y cytundeb dros y trothwy perthnasol bydd rhaid hysbysebu'r cytundeb cyfansawdd yn y gwasanaeth e-hysbysu a elwir yn "Find a Tender" (FTS). Serch hynny, lle rhannir y cytundeb, bydd yn rhaid i'r hysbyseb egluro sut y rhannir y cytundeb, gwerth pob rhan a'r meini prawf gwerthuso ar gyfer pob rhan.

Yn aml fe fydd yn amhriodol i rannu cytundeb. Os gwneir penderfyniad i beidio rhannu cytundeb, rhaid i'r prif reswm dros beidio rhannu gael ei nodi yn y dogfennau caffael neu mewn adroddiad ar y broses dendr gan S4C. Gallai fod yn amhriodol i rannu cytundeb am resymau canlynol: (i) gallai rhannu'r cytundeb arwain at gyfyngu cystadleuaeth; (ii) gallai rhannu'r cytundeb godi'r risg o or-gymhlethu neu godi pris gweithrediad neu

weinyddiad y cytundeb yn ormodol; neu (iii) y gallai'r angen i gydlynu gwahanol gontractwyr ar gyfer gwahanol rannau'r cytundeb greu risg difrifol o fethiant perfformiad cywir y cytundeb.

## Gweithdrefn 1 – Cytundebau llai na £7,500 heb gynnwys TAW

Er mwyn prynu nwyddau/gwasanaethau gwerth llai na £7,500 heb gynnwys TAW yn unol â Gweithdrefnau Prynu S4C rhaid i chi:

1. Sicrhau bod S4C yn gwneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus a sicrhau gwerth gorau drwy ymchwilio i'r farchnad am y nwyddau/gwasanaethau.

2. Cwblhau'r Ffurflen Dyfarnu Contract (Atodiad 3) a chadw cofnod o'r ymchwil a wnaed a chadw'r cofnod am gyfnod o 3 blynedd.

3. Gadarnhau'r archeb gyda'r cyflenwr gan ddefnyddio system "caffael i dalu S4C" – Idocuments. Rhaid i'r cyflenwr ddyfynnu rhif yr archeb ar yr anfoneb prynu. Mae'n bosib na fydd y taliad am y nwyddau/gwasanaethau yn cael ei brosesu, neu y bydd yna oedi yn y prosesu, os nad yw rhif yr archeb wedi ei gynnwys ar yr anfoneb prynu. Am wybodaeth bellach am y system Idocuments, cysylltwch â'r Adran Gyllid os gwelwch yn dda.

S4C

## Gweithdrefn 2 – Cytundebau rhwng £7,500 a £50,000 (heb gynnwys TAW) neu am bryniant unigryw o offer darlledu/TG hyd at £100,000 (heb gynnwys TAW)

Er mwyn prynu nwyddau/gwasanaethau gyda gwerth cytundeb rhwng £7,500 a £50,000 (heb gynnwys TAW) neu am bryniant unigryw o offer darlledu/TG gwerth hyd at £100,000 (heb gynnwys TAW) yn unol â Gweithdrefnau Prynu S4C rhaid i chi:

1. Sicrhau bod S4C yn gwneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus a sicrhau gwerth gorau drwy ymchwilio i'r farchnad am y nwyddau/gwasanaethau a gaffaelir/gytundebir.

2. Gofyn am ddyfynbrisiau gan dri chyflenwr ag iddynt enw da o'r nwyddau/ gwasanaethau. Os ydych am brynu nwyddau neu wasanaethau lle bydd angen cymharu nifer o elfennau rhwng cyflenwyr gwahanol, defnyddio criteria asesu a chynnal cyfweliadau mae'n bosib y byddai'n fwy addas i gynnal proses dendr neu proses mwy ffurfiol gan ddefnyddio dogfen "Cais am Bris", dylid trafod â'r Tîm Cyfreithiol a darllen Gweithdrefn 3. Os bydd llai na thri chyflenwr yn ymateb, bydd angen i ddeiliad y gyllideb wneud penderfyniad fesul achos a yw am ofyn am ddyfynbris gan gyflenwr neu gyflenwyr amgen ai peidio. Rhaid mai'r cwestiwn arweiniol yw a all S4C fod yn rhesymol fodlon ai peidio a dangos ei fod yn cael gwerth gorau. Fodd bynnag, bydd ffactorau megis cyfyngiadau amser neu brinder cyflenwyr ag enw da hefyd yn berthnasol. Rhaid gwneud cofnod ysgrifenedig o'r penderfyniad a'i resymau sylfaenol gan gwblhau'r Ffurflen Dyfarnu Contract (Atodiad 3).

3. Gadw cofnod ysgrifenedig o bob un o'r tri dyfynbris yn yr ystorfa electronig ganolog (gofynnwch i'r Tîm Cyfreithiol am fanylion) er mwyn eu cyflwyno i archwilwyr ar gais am ba gyfnod bynnag sydd hwyaf (a) 3 blynedd **neu** (b) hyd y cytundeb.

4. Gadarnhau'r archeb gyda'r cyflenwr gan ddefnyddio system "caffael i dalu S4C" – Idocuments. Rhaid i'r cyflenwr ddyfynnu rhif yr archeb ar yr anfoneb prynu. Mae'n bosib na fydd y taliad am y nwyddau/gwasanaethau yn cael ei brosesu, neu y bydd yna oedi yn y prosesu, os nad yw rhif yr archeb wedi ei gynnwys ar yr anfoneb prynu. Am wybodaeth bellach am y system Idocuments, cysylltwch â'r Tîm Cyllid os gwelwch yn dda.

5. Os eir i wariant ar nwyddau nad ydynt yn cael eu hadnewyddu neu eu defnyddio yn flynyddol ac mae cyfnod defnydd buddiol tebygol yr eitem yn fwy na 12 mis, rhaid hysbysu'r Tîm Cyllid o wariant yn unol â'r canllawiau Gwariant Cyfalaf.

6. Os caiff nwyddau a ddisgrifir ym 5 uchod eu prynu, rhaid sicrhau y caiff y nwyddau eu hychwanegu i gofrestr asedau'r gyfarwyddiaeth berthnasol.

7. Rhaid i unrhyw wyriad o'r uchod gael ei wneud mewn sefyllfaoedd eithriadol yn unig ac yn dilyn llofnod y Prif Weithredwr[3] o'r Ffurflen Awdurdod Tendr/Cais am Bris Unigol (Atodlen 2). Er mwyn dangos amgylchiadau eithriadol, rhaid i chi allu dangos un neu fwy o'r canlynol:

    EC1. Ar ôl ymchwil i'r farchnad, ceir tystiolaeth mai dim ond un neu nifer fach o ddarparwyr sy'n gallu cyflenwi'r nwyddau/gwasanaethau sydd eu hangen a bod yr egwyddorion caffael wedi eu bodloni.

[3] neu Ddirprwy Awdurdodedig neu, os mai'r Prif Weithredwr yw arweinydd y contract, aelod anweithredol o Fwrdd Unedol S4C heb gynnwys unrhyw aelod o'r Pwyllgor Archwilio

EC2. Mae angen sylw arbenigol unig gyflenwr y nwyddau/gwasanaethau i ehangu, atgyweirio neu adnewyddu cyfarpar perchnogol neu arbenigol.

EC3. Mae proses dendr agored wedi ei defnyddio eisoes er mwyn caffael yr un nwyddau/gwasanaethau ac ni dderbyniwyd unrhyw dendrau derbyniol.

EC4. Mae brys mawr a achoswyd gan ddigwyddiadau nas rhagwelwyd yn ei gwneud yn ofynnol i brynu'r nwyddau/gwasanaethau ar fyr rybudd ac nid oes amser i dendro'r cytundeb yn agored. Ni ellid dibynnu ar y rheswm hwn os achoswyd y brys oherwydd diffyg cynllunio ar ran swyddogion S4C.

EC5. Mae'n ofynnol i'r contractwr cyfredol ymgymryd â gwasanaethau ychwanegol nas rhagwelwyd er mwyn cwblhau cytundeb a ddyfarnwyd eisoes. Mae cyfyngiadau pellach a allai fod yn berthnasol wrth roi cytundeb am wasanaethau ychwanegol – dylid trafod hwn efo'r Tîm Cyfreithiol yn ôl yr angen.

Dylech sicrhau bod y rhesymau dros beidio â dilyn y broses dendro agored (yn y paragraff 7 hwn) yn cael eu cofnodi'n ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ynghlwm yn Atodiad 2 a'u croesgyfeirio at yr amgylchiadau eithriadol a restrir uchod gan ddefnyddio'r rhif EC perthnasol.

Rhaid cadw copïau o'r holl ffurflenni Tendr/Dyfynbris Cyfyngedig yn yr ystorfa electronig ganolog (gofynnwch i'r Tîm Cyfreithiol am fanylion) a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ddwywaith y flwyddyn (ar gyfer cyfarfodydd Mai a Tachwedd y Pwyllgor Archwilio neu fel y cyfarwyddir fel arall gan y Pwyllgor Archwilio).

8. Os yw contract gwerth £30,000 heb gynnwys TAW neu fwy yn cael ei hysbysebu mewn rhyw ffordd (h.y. os yw'r cyfle i geisio am y cytundeb yn cael ei gyhoeddi yn y parth cyhoeddus neu yn cael ei hysbysu i ddarpar gyflenwyr yn gyffredinol neu yn cael ei hysbysu i ddosbarth agored o gyflenwyr) rhaid i'r cytundeb hwnnw hefyd gael ei hysbysebu ar GwerthwchiGymru a fydd hefyd yn sicrhau y cyhoeddir y cytundeb ar adnodd "Contracts Finder" Llywodraeth y DU yn unol â gofynion cyfreithiol. Yn y cyd-destun hwn, nid yw dewis nifer o gyflenwyr yn arbennig ar gyfer cynnig am gontract yn gyfystyr â hysbysebu'r contract hwnnw. Os oes rhaid hysbysebu contract ar GwerthwchiGymru, yn rhinwedd y paragraff 8 hwn, rhaid ei gyhoeddi o fewn 24 awr i'r amser y cafodd y cyfle i ddyfarnu'r contract ei hysbysebu gyntaf mewn ffordd arall.

9. Bydd y wybodaeth y mae'n rhaid ei chyhoeddi ar GwerthwchiGymru yn cynnwys o leiaf y canlynol:

   a. Erbyn pryd y mae'n rhaid i unrhyw weithredwr economaidd sydd â diddordeb ymateb os yw'n dymuno cael ei ystyried;
   b. Sut ac i bwy y mae gweithredwr economaidd o'r fath i ymateb; a
   c. Unrhyw ofynion eraill ar gyfer cymryd rhan yn y broses gaffael.

   Pan fo cyfle wedi'i wneud ar gael dim ond i nifer o weithredwyr economaidd penodol a ddewiswyd ar gyfer y diben hwnnw, yna ni fydd angen hysbysebu'r contract ar GwerthwchiGymru.

10. Os yw gwerth y cytundeb yn £30,000 yn cynnwys TAW neu fwy, ni ellir defnyddio holiaduron cyn-cymhwyso. Fodd bynnag, gellir gofyn cwestiynau asesu addasrwydd, os yw pob cwestiwn yn:

    a. Berthnasol i destun y caffaeliad; a
    b. Chymesur

S4C

# Gweithdrefn 3 - Cytundebau rhwng £50,000 (heb gynnwys TAW) a £213,477 (yn cynnwys TAW) neu am bryniant unigryw o offer darlledu/TG rhwng £100,000 (heb gynnwys TAW) a £213,477 (yn cynnwys TAW)

Rhaid tendro cytundebau â gwerth rhwng £50,000 (heb gynnwys TAW) a £213,477 (yn cynnwys TAW) neu am bryniant unigryw o offer darlledu/TG rhwng £100,000 (heb gynnwys TAW a £213,477 (yn cynnwys TAW) yn gystadleuol o leiaf bob tair blynedd. Rhaid cael cymeradwyaeth eich Cyfarwyddwr ar gyfer pob tendr cyn dechrau'r broses dendro. Gellir dod o hyd i Ffurflen Hysbysu Tendr yn **Atodlen 1.**

Yn ogystal â sicrhau gwerth gorau am arian i S4C, mae dilyn y fath brosesau tendr yn gymorth i ddangos bod S4C yn cydymffurfio â'r egwyddorion tryloywder, triniaeth gyfartal a chymesuredd. Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol i unrhyw bryniant gan S4C a allai fod o ddiddordeb i ddarparwyr (hyd yn oed os yw gwerth y cytundeb o dan y trothwy RhCC 2015).

Yn y cyd-destun hwnnw, noder y gellir cytundebu am bryniant unigryw o offer darlledu/TG gwerth llai na £100,000 yn unol â gweithdrefn 2 ar yr amod eich bod wedi eich argyhoeddi y byddai'r fath weithred yn gyson â'r egwyddorion a nodir uchod. Dylid cadw cofnod o'r rheswm dros beidio cynnig y cytundeb yn gyhoeddus, gallai'r fath resymeg gynnwys elfennau megis gwerth y cytundeb a natur y farchnad ar gyfer y nwyddau. Os ydych o'r farn y gallai fod yna ddiddordeb tu allan i'r DU, dylid dilyn Gweithdrefn 3.

Bydd pob proses dendro a nodir isod yn cynnwys drafftio dogfen gwahoddiad i dendro (**GID**).

Gall y Tîm Cyfreithiol gynnig cyngor ar arfer gorau o ran cynnal a chynllunio prosesau tendro. Yn ogystal mae gan y Tîm Cyfreithiol ddogfennau templed y gellir eu defnyddio. Mae'r Gwahoddiad i Dendro yn nodi manylion y cytundeb, gofynion allweddol S4C a'r meini prawf a ddefnyddir gan S4C i werthuso pob tendr.

Os ydych yn amcangyfrif y bydd gwerth y cytundeb dros £100,000 (heb gynnwys TAW) dylid trafod gyda'r Tîm Cyfreithiol fanteision rhedeg tendr yn unol â Gweithdrefn 4.

I benderfynu pa broses dendro fydd yn sicrhau'r gwerth gorau am arian i S4C, rhaid i chi benderfynu p'un o'r systemau tendro canlynol sydd fwyaf addas:

## 3.1 Proses Dendro Agored (*Gweler siart llif 3.1*)

Mae'r broses hon yn cynnwys hysbyseb agored i'r farchnad ac yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw barti a phob parti sydd â diddordeb mewn darparu'r nwyddau/gwasanaethau i S4C i ymateb i'r hysbyseb drwy gyflwyno tendr llawn.

Os yw'r farchnad ar gyfer y nwyddau/gwasanaethau yn cynnwys nifer o ddarparwyr, gallai'r broses hon arwain at nifer fawr o dendrau. Bydd angen gwerthuso pob tendr a geir yn deg ac yn gyfartal.

Er y gallai fod baich gweinyddol posib o ddefnyddio'r broses hon, mae'r RhCC 2015 wedi gwahardd defnydd o holiaduron cyn-gymhwyso mewn tendrau ar gyfer cytundebau gwerth llai na £213,477.

Mae'n bosib gofyn cwestiynau sy'n asesu addasrwydd (gweler isod) fel rhan o'r broses un cam cyhyd â bod y cwestiynau yn (i) berthnasol i destun y cytundeb a (ii) yn gymesur.

Dehonglir “cwestiynau sy’n asesu addasrwydd” yn gwestiynau sydd yn angenrheidiol er mwyn asesu a yw darpar ddarparwr yn cyrraedd gofynion S4C neu’r trothwy perthnasol ar gyfer safonau o addasrwydd, gallu, statws cyfreithiol neu sefyllfa gyllidebol.

Lle bo’n addas i ofyn cwestiynau sy’n asesu addasrwydd, dylid paratoi rhain gydag arweiniad gan y Tîm Cyfreithiol er mwyn sicrhau bod y cwestiynau yn cydymffurfio â gofynion safonol Swyddfa’r Cabinet.

### 3.2 a 3.3 Proses drwy Wahoddiad a Thendr Sengl (*Gweler Siartiau Llif 3.2 a 3.3*)

Dylid ystyried tendrau sengl neu drwy wahoddiad fel eithriad i'r gweithdrefnau arferol, a dylid ond eu defnyddio o dan amgylchiadau eithriadol. Pan yn gweithredu tendr cyfyngedig, dylid gwahodd o leiaf tri tendrwr i gymryd rhan yn y broses[6].

Rhaid cael caniatâd y Prif Weithredwr[7] (neu ei ddirprwy awdurdodedig) i beidio â mynd i dendr llawn drwy ddefnyddio Ffurflen "Awdurdod Tendr/Cais am Bris Unigol" (Atodlen 2).

Er mwyn dangos amgylchiadau eithriadol, rhaid i chi allu dangos un neu fwy o’r canlynol:

EC1. Ar ôl ymchwil i'r farchnad, ceir tystiolaeth mai dim ond un neu nifer fach o ddarparwyr sy'n gallu cyflenwi'r nwyddau/gwasanaethau sydd eu hangen a bod yr egwyddorion caffael wedi eu bodloni.

EC2. Mae angen sylw arbenigol unig gyflenwr y nwyddau/gwasanaethau i ehangu, atgyweirio neu adnewyddu cyfarpar perchnogol neu arbenigol.

EC3. Mae proses dendr agored wedi ei ddefnyddio eisoes er mwyn caffael yr un nwyddau/gwasanaethau ac ni dderbyniwyd unrhyw dendrau derbyniol.

EC4. Mae brys mawr a achoswyd gan ddigwyddiadau nas rhagwelwyd yn ei gwneud yn ofynnol i brynu'r nwyddau/gwasanaethau ar fyr rybudd ac nid oes amser i dendro'r cytundeb yn agored. Ni ellid dibynnu ar y rheswm hwn os achoswyd y brys oherwydd diffyg cynllunio ar ran swyddogion S4C.

EC5. Mae'n ofynnol i'r contractwr cyfredol ymgymryd â gwasanaethau ychwanegol nas rhagwelwyd er mwyn cwblhau cytundeb a ddyfarnwyd eisoes. Mae cyfyngiadau pellach a allai fod yn berthnasol wrth roi cytundeb am wasanaethau ychwanegol – dylid trafod hwn efo’r Tîm Cyfreithiol yn ôl yr angen.

---

[6] Os bydd llai na thri chyflenwr yn ymateb, bydd angen i ddeiliad y gyllideb wneud penderfyniad fesul achos a yw am ofyn am ddyfynbris gan gyflenwr neu gyflenwyr amgen ai peidio. Rhaid mai'r cwestiwn arweiniol yw a all S4C fod yn rhesymol fodlon ai peidio a dangos ei fod yn cael gwerth gorau. Fodd bynnag, bydd ffactorau megis cyfyngiadau amser neu brinder cyflenwyr ag enw da hefyd yn berthnasol. Rhaid gwneud cofnod ysgrifenedig o'r penderfyniad a'i resymau sylfaenol.

[7] Neu Ddirprwy Awdurdodedig neu, os mai’r Prif Weithredwr yw arweinydd y contract, aelod anweithredol o Fwrdd Unedol S4C heb gynnwys unrhyw aelod o’r Pwyllgor Archwilio

Dylid sicrhau bod y rhesymau dros beidio dilyn proses dendr agored wedi eu cofnodi yn ysgrifenedig gan ddefnyddio’r ffurflen yn Atodiad 2 a’u croesgyfeirio at yr amgylchiadau eithriadol a restrir uchod gan ddefnyddio'r rhif EC perthnasol.

Rhaid cadw copïau o’r holl ffurflenni Tendr Cyfyngedig/Awdurdiad Dyfynbris yn yr ystorfa electronig ganolog (gofynnwch i’r Tîm Cyfreithiol am fanylion) a chyflwyno copïau i’r Pwyllgor Archwilio ddwywaith y flwyddyn (ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ym mis Mai a mis Tachwedd neu fel y cyfarwyddir fel arall gan y Pwyllgor Archwilio).

Mae'r broses hon yn cynnwys gwahodd un neu fwy o gyflenwyr i roi dyfynbris am y nwyddau/gwasanaethau.

Mae GID safonol a matrics sgorio ar gael gan y Tîm Cyfreithiol.

Os yw contract gwerth £25,000 (heb gynnwys TAW) neu fwy yn cael ei hysbysebu mewn rhyw ffordd (h.y. os yw’r cyfle yn cael ei roi yn y parth cyhoeddus neu’n cael ei ddwyn i sylw darpar gyflenwyr yn gyffredinol neu at unrhyw ddosbarth o gyflenwyr sy’n ben-agored) rhaid i'r contract hwnnw hefyd gael ei hysbysebu ar GwerthwchiGymru, a fydd hefyd yn sicrhau ei fod yn cael ei gyhoeddi ar adnodd "Contracts Finder" Llywodraeth y DU yn unol â'r gofynion cyfreithiol. Yn y cyd-destun hwn, nid yw dewis nifer o gyflenwyr yn arbennig ar gyfer cynnig am gontract yn gyfystyr â hysbysebu’r contract hwnnw.

Os oes rhaid hysbysebu contract ar GwerthwchiGymru, rhaid ei gyhoeddi o fewn 24 awr i’r amser y cafodd y cyfle i ddyfarnu’r contract ei hysbysebu gyntaf mewn ffordd arall.

Rhaid i'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chyhoeddi ar GwerthwchiGymru gynnwys o leiaf y canlynol:

- Erbyn pryd y mae'n rhaid i unrhyw weithredwr economaidd sydd â diddordeb ymateb os yw'n dymuno cael ei ystyried;
- Sut ac i bwy y mae gweithredwr economaidd o'r fath i ymateb; a
- Unrhyw ofynion eraill ar gyfer cymryd rhan yn y broses gaffael.

## 3.1 Proses dendro agored un cam

| | |
|---|---|
| Cam 1 | Sicrhau cymeradwyaeth briodol i'r Tendr (gweler uchod). |
| Cam 2 | Drafftio'r GID, y matrics sgorio cysylltiedig a'r cytundeb drafft gyda mewnbwn gan y Tîm Cyfreithiol. |
| Cam 3 | Gosod hysbysebion yn y wasg ryngwladol, leol a/neu fasnach (fel y bo'n briodol), ar GwerthwchiGymru ac ar wefan S4C i hysbysu'r farchnad bod S4C yn dymuno caffael/prynu'r nwyddau/gwasanaethau perthnasol. |
| Cam 4 | Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau.<br><br>Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn darparu'r nwyddau/ gwasanaethau i S4C gyflwyno ei dendr wedi'i gwblhau i S4C yn unol â gofynion y GID. Dylid caniatáu o leiaf 3 wythnos rhwng Cam 3 a Cham 4. |
| Cam 5 | Dylai dau berson fod yn bresennol i agor pob tendr terfynol ar yr un pryd gan logio pob ymateb. Dylid darllen a gwerthuso pob tendr sy'n dod i law yn unol â'r meini prawf gwerthuso y penderfynwyd arnynt ymlaen llaw a nodwyd yn y GID gan ddefnyddio'r Matrics safonol ac yn unol â'r arfer gorau.<br><br>Y panel gwerthuso i benderfynu ar y tendrwr llwyddiannus. |
| Cam 6 | Llofnodwr perthnasol i gymeradwyo penderfyniad y panel gwerthuso a manylion y tendrwr llwyddiannus gan ddefnyddio'r Ffurflen Dyfarnu Contract (Atodiad 3). |
| Cam 7 | Yn dilyn cymeradwyaeth y llofnodwr perthnasol i'r penderfyniad, rhaid cysylltu â phob tendrwr a gyflwynodd ymateb tendro ar yr un diwrnod i roi gwybod iddynt p'un a oedd eu tendr yn llwyddiannus ai peidio.<br>Dylid rhoi adborth i dendrwyr aflwyddiannus.<br>Cyhoeddir enw'r tendrwr llwyddiannus ar GwerthwchiGymru, gwefan S4C a, lle y bo'n briodol, yn y wasg leol.<br>Dylid cadarnhau'r archeb gyda'r cyflenwr yn defnyddio Idocs. Cyflenwr i gofnodi'r rhif PO ar bob anfoneb. |
| Cam 8 | Dylid archifo'r dogfennau tendro. |

## 3.2 Proses dendro drwy wahoddiad

| | |
|---|---|
| Cam 1 | Sicrhau cymeradwyaeth gan y person priodol (fel y nodir uchod) i fynd am dendr drwy wahoddiad gan ddefnyddio'r Ffurflen Tendr Cyfyngedig/Dyfynbris (Atodiad 2) |
| Cam 2 | Sicrhau gwerth gorau drwy ymchwilio i'r farchnad yn drwyadl a llunio rhestr sy'n cynnwys o leiaf tri cyflenwr posibl ac iddynt enw da sy'n gallu cyflenwi'r nwyddau/ gwasanaethau sydd eu hangen (lle y bo hynny ar gael). |
| Cam 3 | Drafftio'r gwahoddiad i dendro, y matrics sgorio cysylltiedig a'r cytundeb drafft gyda mewnbwn gan y Tîm Cyfreithiol. |
| Cam 4 | Anfon GID i'r cyflenwyr sydd ag enw da a nodwyd a chadw cofnod o bob unigolyn neu endid yr anfonir y GID atynt. |
| Cam 5 | Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r GID.<br><br>Pob unigolyn neu endid yr anfonwyd gwahoddiad i dendro atynt ac sydd â diddordeb mewn darparu'r nwyddau/gwasanaethau i S4C i gyflwyno tendr llawn i S4C yn unol â darpariaethau'r GID. Dylid caniatáu o leiaf pythefnos rhwng Cam 4 a Cham 5.<br><br>Os nad yw cyflenwr a nodwyd yn ymateb i'r GID, dylid gofyn am reswm dros y diffyg ymateb a'i ddogfennu. |
| Cam 6 | Rhaid i bob tendr a ddaw i law gael eu hagor ar yr un pryd gan ddau berson a dylid logio pob tendr y'i derbynir. Dylid darllen a gwerthuso pob tendr yn unol â'r meini prawf tendro a nodwyd yn y gwahoddiad i dendro. Y panel gwerthuso i enwi'r tendrwr llwyddiannus. |
| Cam 7 | Llofnodwr perthnasol i gymeradwyo penderfyniad y panel gwerthuso a manylion y tendrwr llwyddiannus gan ddefnyddio'r Ffurflen Dyfarnu Contract (Atodiad 3). |

Cam 8

Yn dilyn cymeradwyaeth y llofnodwr perthnasol i'r penderfyniad, rhaid cysylltu â phob tendrwr a gyflwynodd ymateb tendro ar yr un diwrnod i roi gwybod iddynt p'un a oedd eu tendr yn llwyddiannus ai peidio.  Dylid darparu adborth i dendrwyr aflwyddiannus.

Dylid cyhoeddi enw'r tendrwr llwyddiannus ar wefan S4C a, lle y bo'n briodol, yn y wasg leol.

Dylid cadarnhau’r archeb gyda’r cyflenwr yn defnyddio Idocs. Cyflenwr i gofnodi’r rhif PO ar bob anfoneb.

Cam 9

Dylid cadw'r dogfennau tendro yn yr ystorfa electronig ganolog (gofynnwch i’r Tîm Cyfreithiol am fanylion).

## 3.3 Proses dendro unigol

Cam 1

Sicrhau cymeradwyaeth y person perthnasol (gweler uchod) ar gyfer y broses dendro unigol drwy lofnodi’r Ffurflen Awdurdod Tendr/Cais am Bris Cyfyngedig (Atodlen 2).

Y Ffurflen Awdurdod Tendr/Cais am Bris Cyfyngedig i nodi'n glir y cyfiawnhad dros ddefnyddio'r broses dendro unigol gan ystyried un o'r amgylchiadau eithriadol a restrwyd uchod **cyn** mynd i unrhyw wariant.

Rhaid nodi'r cyfiawnhad yn ysgrifenedig, a rhaid iddo gynnwys y canlynol:

1. Enw'r cyflenwr
2. Natur y nwyddau/ gwasanaethau
3. Yr amgylchiadau eithriadol sy'n cyfiawnhau'r tendr unigol (gweler cyfiawnhad uchod).
4. Gwerth cytundebau neu bryniant presennol o'r cyflenwr

Cam 2

Anfon manyleb y gwasanaethau/nwyddau sydd eu hangen i'r unig gyflenwr a gofyn am fanylion y pris a thelerau'r cytundeb gan yr unig gyflenwr.

Cam 3

Sicrhau cymeradwyaeth gan y llofnodwr **a** deiliad y gyllideb ar gyfer pris a thelerau'r cytundeb, a sicrhau y caiff cytundeb ysgrifenedig ei lofnodi ar gyfer y nwyddau/gwasanaethau o dan y telerau y cytunwyd arnynt. Dylid cadw cofnod o’r cymeradwyaeth gan ddefnyddio'r Ffurflen Dyfarnu Contract (Atodiad 3)

Dylid cadarnhau’r archeb gyda’r cyflenwr yn defnyddio Idocs. Cyflenwr i gofnodi’r rhif PO ar bob anfoneb.

Cam 4

Dylid cadw'r holl ddogfennau tendro yn yr ystorfa electronig ganolog (gofynnwch i’r Tîm Cyfreithiol am fanylion).

## Gweithdrefn 4 – Cytundebau am Nwyddau neu Wasanaethau dros £213,477 (yn cynnwys TAW)

Gall cytundebau ar gyfer nwyddau neu wasanaethau sydd â gwerth uwch na £213,477 yn cynnwys TAW fod yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau Cytundebau Cyhoeddus (y "RhCC 2015").

Cyn dechrau ymarfer caffael yn unol â'r RhCC 2015, bydd angen i S4C asesu a yw'r RhCC 2015 yn berthnasol i'r achos o gaffael dan sylw, ac os felly, i ba raddau.

Bydd rhai achosion penodol o gaffael wedi'u heithrio o'r RhCC 2015, ac efallai y bydd achosion eraill yn gofyn am gydymffurfiaeth rannol â'r RhCC 2015 yn unig.

**Cytundebau a Eithriwyd**
Os yw'r cytundeb ar gyfer caffael, datblygu, cynhyrchu neu gyd-gynhyrchu deunydd rhaglenni y bwriedir ei ddarlledu ar deledu neu ar wasanaeth clyw-weledol ar-alw neu ar gyfer prynu amser darlledu gellir eithrio'r achos o gaffael o gymhwyso â'r RhCC 2015. Er hynny, mae Datganiad Polisi Caffael S4C yn datgan y bydd S4C yn cydymffurfio ag egwyddorion cyffredinol caffael wrth brynu rhaglenni.

Dylid bob amser geisio cyngor gan y Tîm Cyfreithiol o ran y dehongliad o'r eithriad uchod os oes unrhyw ansicrwydd. Nodir nad yw'r eithriad yn berthnasol i brynu offer technegol sy'n angenrheidiol ar gyfer cynhyrchu, cyd-gynhyrchu a darlledu rhaglenni.

**Trefniant Cyffyrddiad Ysgafn ar gyfer rhai Gwasanaethau**
Mae caffael gwasanaethau penodol yn gofyn am gydymffurfiaeth cyffyrddiad ysgafn â'r rheolau yn unig yn hytrach na chydymffurfiaeth â'r rheolau llawn.

Mae'r gyfundrefn cyffyrddiad ysgafn yn berthnasol i'r gwasanaethau canlynol yn ogystal â rhai gwasanaethau eraill sydd wedi eu rhestru yn Atodlen 3 i'r RhCC 2015 ac yn cynnwys:

- Gwasanaethau cyfreithiol (oni bai eu bod wedi ei eithrio gan Reoliad 10(1)(d)).
- Gwasanaethau addysgiadol a galwedigaethol.
- Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.
- Gwasanaethau gweithgareddau hamdden, diwylliannol a chwaraeon.
- Gwasanaethau llety a bwyty.

Mae'r gyfundrefn cyffyrddiad ysgafn yn gofyn i bob cytundeb ar gyfer y gwasanaethau uchod sydd â gwerth uwch na'r trothwy "Cyffyrddiad Ysgafn" perthnasol (sef £663,540) gael ei hysbysebu yn yr FTS. Yn dilyn gwobrwyo'r cytundeb, rhaid cyhoeddi hysbyseb gwobrwyo cytundeb. Mae'r trothwy ar gyfer gwasanaethau cyffyrddiad ysgafn yn cynnwys TAW.

Serch hynny, mae'r prif egwyddorion caffael o dryloywder, triniaeth gyfartal a chymhwysedd yn berthnasol i gontractau sydd o dan y trothwy ar gyfer y gyfundrefn cyffyrddiad ysgafn.

Rhaid cael cymeradwyaeth y llofnodwr perthnasol ar gyfer pob tendr (mae e-bost yn dderbyniol) cyn dechrau'r broses dendro.

## 4.1 Gweithdrefn Agored RhCC 2015 (*Gweler siart llif 4.11*)

O dan y weithdrefn hon gosodir hysbyseb o fwriad S4C i osod y cytundeb yng ngwasanaeth e-hysbysu 'Find a Tender' (FTS) (gelwir hwn yr Hysbysiad o Gytundeb neu 'Contract Notice'). Er gellir gosod yr Hysbysiad o Gytundeb ar GwerthwchiGymru hefyd, rhaid i'r Hysbysiad o Gytundeb gael ei gyhoeddi ar FTS gyntaf, a ni all unrhyw gyhoeddiad ar GwerthwchiGymru wedi hynny ddarparu unrhyw wybodaeth na chafodd ei gyhoeddi ar FTS.

48 awr ar ôl danfon yr hysbyseb at FTS, gall S4C hefyd hysbysebu'r cytundeb yn y wasg leol, genedlaethol a masnach yn unol â'r amodau penodol sy'n effeithio ar gynnwys hysbysebion o'r fath.

Bydd yr Hysbyseb o Gytundeb yn cynnwys y Gwahoddiad i Dendr (GID), y matrics gwerthuso a'r cytundeb drafft.

Mae'n ofynnol i unrhyw un sydd â diddordeb yn y cytundeb gyflwyno tendr llawn am y cytundeb i S4C. Rhaid i'r dyddiad ymateb ar gyfer tendr o'r fath fod o leiaf 35 diwrnod ar ôl anfon yr Hysbysiad o Gytundeb at FTS.

Rhaid i S4C werthuso pob tendr a dderbynnir yn unol â'r meini prawf gwerthuso penodol a'r pwysoliad a nodwyd yn yr Hysbysiad o Gytundeb a dogfennau tendr.

Ar ôl gwerthuso pob cytundeb a geir, rhaid i S4C ddewis y tendr llwyddiannus ac anfon hysbysiad ysgrifenedig ("Hysbysiad Dyfarnu'r Penderfyniad") at bob tendrwr ar yr un diwrnod yn eu hysbysu o'r canlynol:

(a) Enw'r tendrwr llwyddiannus;

(b) Y meini prawf gwerthuso ar gyfer gwobrwyo'r cytundeb (rhaid i'r rhain fod yr un rhai a nodwyd yn y GID);

(c) y rheswm dros wneud y penderfyniad, gan gynnwys (i) nodweddion a buddion cymharol y tendr llwyddiannus; a (ii) sgôr y tendrwr llwyddiannus a'r tendrwr aflwyddiannus; a

(d) y dyddiad pan fydd y cyfnod segur (gweler isod) yn dod i ben ac unrhyw fater arall a all effeithio'r fath ddyddiad.

Mae'r Hysbyseb Dyfarnu Penderfyniad yn ddogfen bwysig, yn enwedig yr wybodaeth sydd yn angenrheidiol i'w darparu yn unol â (c) uchod. Dylai'r wybodaeth yma adlewyrchu'r nodiadau gwerthuso a wnaed yn ystod y broses werthuso. Mae felly'n bwysig bod y nodiadau gwerthuso yn gywir, gryno ac yn cysylltu'n ôl i'r meini prawf gwerthuso ar gyfer y cytundeb (a pherfformiad y tendrwr yn erbyn y meini prawf yma).

Ni all S4C a'r tendrwr llwyddiannus ymrwymo i gytundeb tan o leiaf 10 diwrnod ("cyfnod segur") ar ôl anfon Hysbysiad Dyfarnu'r Penderfyniad (ar yr amod y caiff yr hysbysiadau eu hanfon yn electronig). Rhaid i'r cyfnod o 10 diwrnod ddod i ben ar ddiwrnod gwaith.

Ar ôl diwedd y cyfnod segur ac ar yr amod nad oes unrhyw wrthwynebiadau, gall S4C ymrwymo i gytundeb gyda'r tendrwr llwyddiannus.

O fewn 30 diwrnod o ymrwymo i gytundeb gyda'r tendrwr llwyddiannus, rhaid i S4C anfon Hysbysiad Dyfarnu'r Cytundeb i FTS. Bydd S4C hefyd yn cyflwyno'r hysbysiad i

GwerthwchiGymru o fewn amser rhesymol ond nid cyn ei gyhoeddi ar FTS, a bydd hyn yn sicrhau cyhoeddiad yr hysbysiad ar 'Contracts Finder' hefyd.

**Amserlen Ofynnol**
Yr **amserlen ofynnol leiaf posibl ar gyfer cwblhau'r broses hon yw 45 diwrnod** o anfon yr Hysbysiad o Gytundeb i FTS i lofnodi'r cytundeb (ar yr amod bod yr holl ddogfennau ar gael yn electronig trwy gydol y broses o'r diwrnod y cyhoeddir yr Hysbysiad o Gytundeb yn FTS). Fodd bynnag, nid yw'r amserlen ofynnol hon yn ystyried amser sy'n ymwneud â llunio'r Hysbysiad o Gytundeb a gwerthuso'r tendrau a dderbyniwyd. **Mae rhwng tri a phum mis yn amserlen fwy realistig ar gyfer y broses hon o'r dechrau i'r diwedd**.

## 4.2 Gweithdrefn Gyfyngedig RhCC 2015 (*Gweler siart llif 4.2*)

O dan y weithdrefn hon gosodir hysbyseb o fwriad S4C i osod y cytundeb yn FTS (gelwir hwn yn Hysbysiad o Gytundeb neu Contract Notice). Gosodir yr hysbyseb yn FTS ac yn dilyn hynny gellir ei gyhoeddi ar wefan GwerthwchiGymru.

48 awr ar ôl danfon yr hysbyseb at FTS, gall S4C hefyd hysbysebu'r cytundeb yn y wasg leol, genedlaethol a masnach yn unol â'r amodau penodol sy'n effeithio ar gynnwys hysbysebion o'r fath.

Bydd yr Hysbysiad o Gytundeb ac unrhyw hysbyseb arall ar gyfer y cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sydd â diddordeb yn y cytundeb anfon Holiadur Dethol (SQ) wedi'i gwblhau i S4C erbyn dyddiad penodol. Caiff y SQ ei lunio gan S4C yn seiliedig ar ofynion penodol y cytundeb (rhaid i'r rhain fod yn berthnasol i ofynion y gwasanaeth/nwyddau ac yn gymesur). Bydd y SQ ar gael i ddarpar ymgeiswyr drwy FTS ac yn dilyn hynny gwefannau GwerthwchiGymru ac S4C. Rhaid sicrhau bod y Gwahoddiad i Dendr (GID), y matrics gwerthuso a'r contract drafft ar gael ar yr un pryd â'r SQ pan gaiff yr Hysbysiad o Gytundeb ei chyhoeddi.

Bydd yr Hysbysiad o Gytundeb yn nodi'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno SQ wedi'i gwblhau. **Ni all y terfyn amser hwn fod yn gynt na 30 diwrnod ar ôl dyddiad anfon yr Hysbysiad o Gytundeb at FTS**. Dylai'r terfyn amser ddod i ben ar ddiwrnod gwaith.

Ar ôl i'r terfyn amser ar gyfer cyfleu'r SQ ddod i ben, rhaid gwerthuso pob SQ yn unol â'r meini prawf dethol a nodwyd yn yr Hysbysiad o Gytundeb a'r nodiadau o arweiniad a roddwyd yn y SQ. Mae SQ safonol S4C (a'r nodiadau o arweiniad sydd wedi eu cynnwys ynddo sy'n ymwneud â'r broses ddethol ac unrhyw ofynion sylfaenol) wedi ei selio ar ddogfennau safonol Swyddfa'r Cabinet. Ni ddylid newid y ddogfen safonol heb drafod unrhyw newidiadau efo'r Tîm Cyfreithiol. Gall y penderfyniad i wyro o eiriad safonol Swyddfa'r Cabinet olygu bod angen darparu adroddiad i Swyddfa'r Cabinet.

Ar ôl gwerthuso'r SQs, rhaid i S4C ddewis rhestr fer o ymgeiswyr i'w gwahodd i dendro. Bydd y GID ar gael i bob ymgeisydd wrth gyhoeddi'r Hysbysiad o Gytundeb, felly wedi i'r rhestr fer gael ei dewis, dylid danfon llythyr syml i'r rheini ar y rhestr fer sy'n eu gwahodd i ymateb yn llawn i'r GID a'u hatgoffa lle y gellid dod o hyd i'r GID ac yn nodi unrhyw newidiadau yr hoffai S4C ei wneud i'r drafft cychwynnol (yn gyffredinol, ni ddylai unrhyw newidiadau fod yn sylweddol a dylid trafod y rhain efo'r Tîm Cyfreithiol o flaen llaw).

Dylid danfon llythyr at yr ymgeiswyr aflwyddiannus yn y broses ddethol yn nodi nad oeddynt yn llwyddiannus ac y bydd adborth pellach ar gael yn dilyn gwobrwyo'r cytundeb.

Rhaid i'r GID nodi'r meini prawf gwerthuso a ddefnyddir gan S4C wrth werthuso pob tendr a'r pwysoliad a roddir i bob maen prawf a ddefnyddir. Rhaid iddo hefyd nodi unrhyw fethodoleg sgorio i'w ddefnyddio gan S4C (e.e. os yw cwestiwn i'w farcio 0-5, dylid nodi methodoleg S4C wrth wobrwyo pob un sgôr).

**Ni all y terfyn amser ar gyfer derbyn tendrau fod yn gynt na 35 diwrnod cyfan ar ôl anfon y gwahoddiadau** at yr ymgeiswyr ar y rhestr fer, ar yr amod bod y dogfennau tendro ar gael yn electronig i dendrwyr. Dylai'r terfyn amser ddod i ben ar ddiwrnod gwaith.

Ar ôl i'r tendrau llawn ddod i law, rhaid i S4C werthuso pob tendr a geir yn unol â'r meini prawf gwerthuso a'r pwysoliad a nodwyd yn y GID a dewis y tendrwr llwyddiannus.

Rhaid i S4C ddanfon hysbysiad ("Hysbysiad Dyfarnu Penderfyniad") at bob un a gyflwynodd SQ ac a oedd yn aflwyddiannus ar yr un diwrnod yn rhoi gwybod iddynt am y tendr llwyddiannus.

Rhaid i'r Hysbysiad Dyfarnu Penderfyniad gynnwys:

i. Enw'r tendrwr llwyddiannus
ii. Sgôr y tendrwr llwyddiannus
iii. Sgôr y sawl yr anfonir yr hysbysiad atynt
iv. y meini prawf gwerthuso ar gyfer gwobrwyo'r cytundeb (rhaid i'r rhain fod yr un rhai a nodwyd yn y GID)
v. Rhesymau dros y penderfyniad, yn cynnwys nodweddion a manteision cymharol y tendr llwyddiannus
vi. Dyddiad terfyn disgwyliedig y cyfnod segur a rhesymau pam y gallai newid neu, fel arall, y dyddiad cynharaf y caiff y cytundeb ei ddyfarnu.

Mae'r Hysbyseb Dyfarnu Penderfyniad yn ddogfen bwysig, yn enwedig yr wybodaeth sydd yn angenrheidiol i'w darparu yn unol â (v) uchod. Dylai'r wybodaeth yma adlewyrchu'r nodiadau gwerthuso a wnaed yn ystod y broses werthuso gan y panel gwerthuso. Mae felly'n bwysig bod y nodiadau gwerthuso yn gywir, gryno ac yn cysylltu'n ôl i'r meini prawf gwerthuso ar gyfer y cytundeb (a pherfformiad y tendrwr yn erbyn y meini prawf yma).

Ni all S4C a'r tendrwr llwyddiannus arwyddo'r cytundeb tan o leiaf 10 diwrnod ("cyfnod segur") ar ôl anfon Hysbysiad Dyfarnu'r Penderfyniad (ar yr amod y caiff yr hysbysiadau eu hanfon yn electronig). Dylai'r terfyn amser ddod i ben ar ddiwrnod gwaith.

Ar ôl diwedd y cyfnod segur ac ar yr amod nad oes unrhyw wrthwynebiadau, gall S4C ymrwymo i gytundeb gyda'r tendrwr llwyddiannus.

O fewn 30 diwrnod o ymrwymo i gytundeb gyda'r tendrwr llwyddiannus, rhaid i S4C anfon Hysbysiad Dyfarnu'r Cytundeb i FTS. Bydd S4C hefyd yn cyflwyno'r hysbysiad i GwerthwchiGymru a bydd hyn yn sicrhau cyhoeddiad yr hysbysiad ar Contracts Finder hefyd.

**Amserlen Ofynnol**
Yr **amserlen ofynnol leiaf posibl ar gyfer cwblhau'r broses hon yw 72 diwrnod** o anfon yr Hysbysiad o Gytundeb i FTS a llofnodi'r Cytundeb (ar yr amod bod yr holl ddogfennau ar gael yn electronig o ddyddiad cyhoeddi'r Hysbysiad o Gytundeb yn yr FTS). Fodd bynnag, nid yw'r amserlen ofynnol hon yn ystyried amser sy'n ymwneud â llunio'r Hysbysiad o Gytundeb, y SQ, y GID, gwerthuso'r ffurflenni cais a gwerthuso'r tendrau a dderbyniwyd. **Mae rhwng pedwar a chwe mis yn amserlen fwy realistig ar gyfer y broses hon o'r dechrau i'r diwedd**.

## 4.1 Gweithdrefn agored RhCC 2015

**Cam 1**

Sicrhau cymeradwyaeth briodol i'r tendr.

**Cam 2**

Drafftio'r GID, cytundeb drafft a'r matrics sgorio cysylltiedig gyda mewnbwn gan y Tîm Cyfreithiol.

**Cam 3**

Y Tîm Cyfreithiol i anfon yr Hysbysiad o Gytundeb i 'Find a Tender Service' (FTS) ac yn dilyn hynny ei gyhoeddi ar GwerthwchiGymru, ond rhaid cyhoeddi ar FTS gyntaf.

**Cam 4**

48 awr ar ôl cyhoeddi yn FTS, S4C i osod hysbysebion yn y wasg genedlaethol, leol a/neu fasnach (fel y bo'n briodol) ac ar wefan S4C i hysbysu'r farchnad bod S4C yn dymuno caffael/prynu'r nwyddau/gwasanaethau perthnasol. Ni ellir cynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol i'r hyn a nodwyd yn yr Hysbysiad o Gytundeb mewn hysbysebion yn y wasg genedlaethol, leol a/neu fasnach.

**Cam 5**

GID a'r contract drafft i fod ar gael ar wefan S4C o ddyddiad y cyhoeddiad yn OJEU

**Cam 6**

Ymateb i geisiadau am wybodaeth bellach. Os oes unrhyw un yn gwneud cais am ragor o wybodaeth, rhaid darparu gwybodaeth o'r fath nid hwyrach na 6 diwrnod cyn y terfyn amser ar gyfer cyfleu tendrau.

**Cam 7**
- Nid yn gynt na 35 diwrnod ar ôl dyddiad anfon yr Hysbysiad o Gytundeb

Terfyn amser ar gyfer cyfleu tendrau. Ni all hyn fod yn gynt na 35 diwrnod cyfan o ddyddiad anfon yr Hysbysiad o Gytundeb i FTS(ar yr amod bod y dogfennau ar gael yn electronig), ond dylid pennu'r dyddiad cau ar ddyddiad sy'n caniatáu cyfnod digonol i ddarparwyr baratoi eu tendrau.

Ar ôl i'r terfyn amser ar gyfer derbyn tendrau ddod i ben, rhaid i ddau berson agor pob tendr a dderbyniwyd ar yr un pryd a logio'r tendrau a dderbyniwyd.

Cam 8

Ar ôl gwerthuso pob tendr a ddaw i law, rhaid i S4C benderfynu ar y tendrwr llwyddiannus ar sail y meini prawf a nodwyd yn yr Hysbysiad o Gytundeb a'r GID.

Rhaid cadw cofnod o'r canlynol yn yr ystorfa electronig ganolog (gofynnwch i'r Tîm Cyfreithiol am fanylion):

1. Pob tendr a gyflwynir
2. Y meini prawf gwerthuso a ddefnyddiwyd (yn unol â'r rhai a nodwyd yn yr Hysbysiad o Gytundeb)
3. Cyfanswm y marciau a ddyfarnwyd i bob maen prawf gwerthuso ar gyfer pob tendr
4. Rheswm dros ddewis y tendrwr llwyddiannus - hwn fydd y tendrwr sydd wedi cael y nifer fwyaf o farciau yn y broses werthuso
5. Gwybodaeth arall i'w gadw yn unol â thempled safonol S4C

↓

Cam 9

Llofnodwr perthnasol i gymeradwyo penderfyniad y panel gwerthuso a manylion y tendrwr llwyddiannus arfaethedig gan ddefnyddio'r Ffurflen Dyfarnu Tendr (Atodiad 3).

↓

Cam 10

Yn dilyn cymeradwyaeth y llofnodwr perthnasol i'r penderfyniad, rhaid cysylltu â phob tendrwr ar yr un diwrnod er mwyn rhoi gwybod iddynt:

1. P'un a oedd eu tendr yn llwyddiannus ai peidio;
2. Y rhesymau dros y penderfyniad, yn cynnwys nodweddion a manteision cymharol y tendr llwyddiannus ;
3. Y sgôr a gafwyd yn y broses werthuso;
4. Pwy oedd y tendrwr llwyddiannus;
5. Y sgôr a roddwyd i'r tendrwr llwyddiannus;
6. Dyddiad terfyn disgwyliedig y cyfnod segur a rhesymau pam y gallai newid neu, fel arall, y dyddiad cynharaf y caiff cytundeb ei ddyfarnu.

Gelwir yr hysbysiad hwn yn Hysbysiad Dyfarnu'r Penderfyniad.

↓

Cam 11
- Nid yn gynt na 10 diwrnod ar ôl anfon Hysbysiad Dyfarnu'r Penderfyniad

Llofnodir y cytundeb.  Ni all hyn fod yn gynt na 10 diwrnod ar ôl anfon Hysbysiad Dyfarnu'r Penderfyniad, ar yr amod y caiff ei anfon yn electronig.

Cadarnhau'r archeb gyda'r cyflenwr drwy Idocs.  Cyflenwr i nodi'r PO ar bob anfoneb.

↓

Cam 12

Danfon Hysbysiad Dyfarnu'r Cytundeb i FTS o fewn 30 diwrnod i arwyddo'r cytundeb.  Hefyd, cyhoeddi'r un peth ar GwerthwchiGymru o fewn amser rhesymol.

## 4.2 Gweithdrefn gyfyngedig RhCC 2015

**Cam 1**

Sicrhau cymeradwyaeth briodol i'r Tendr.

↓

**Cam 2**

Drafftio Holiadur Cyn-Gymhwyso, GID, cytundeb drafft a matrics sgorio cysylltiedig gyda mewnbwn gan y Tîm Cyfreithiol.

↓

**Cam 3**

Y Tîm Cyfreithiol i anfon yr Hysbysiad o Gytundeb i FTS. Yn dilyn hynny, cyhoeddi'r Hysbysiad o Gytundeb ar wefan GwerthwchiGymru.

↓

**Cam 4**

48 awr yn dilyn y cyhoeddiad yn FTS, cyhoeddi'r hysbyseb yn y wasg genedlaethol, leol a/neu fasnach (fel y bo'n briodol) ac ar wefan S4C i hysbysu'r farchnad bod S4C yn dymuno caffael/prynu'r nwyddau/gwasanaethau perthnasol.

Ni ellir cynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol i'r hyn a nodwyd yn yr Hysbysiad o Gytundeb mewn hysbysebion yn y wasg genedlaethol, leol a/neu fasnach.

↓

**Cam 5**

Rhaid i'r Hysbysiad o Gytundeb ac unrhyw hysbyseb ar gyfer cytundeb gyfeirio unrhyw un sydd â diddordeb mewn darparu'r nwyddau/ gwasanaethau i anfon SQ wedi'i gwblhau i S4C. Dylai'r SQ, y GID a'r cytundeb drafft fod ar gael i'w lawr lwytho o wefan S4C a GwerthwchiGymru ar y dyddiad y cyhoeddir yr Hysbysiad o Gytundeb.

↓

**Cam 6**

- Nid yn gynt na 30 diwrnod llawn ar ôl anfon yr Hysbysiad o Gytundeb i OJEU

Rhaid nodi'r terfyn amser ar gyfer cyfleu SQs wedi'u cwblhau yn yr Hysbysiad o Gytundeb ac unrhyw hysbysebion eraill a gyhoeddir gan S4C. Ni all y terfyn amser hwn fod yn gynt na 30 diwrnod cyfan ar ôl dyddiad anfon yr Hysbysiad o Gytundeb i FTS.

Ar ôl i'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno’r SQs ddod i ben, rhaid i ddau berson agor pob SQ a dderbyniwyd ar yr un pryd gan logio pob SQ. Dylid gwerthuso pob SQ yn unol â'r meini prawf gwerthuso a nodwyd yn yr Hysbysiad o Gytundeb a'r SQ. Dylid egluro system sgorio'r SQ i bob ymgeisydd.

Dim ond SQs a gyflwynir erbyn y terfyn amser a nodwyd yn yr Hysbysiad o Gytundeb y gellir eu hystyried. Ni ddylid agor SQs a gyflwynir yn hwyr.

↓

**Cam 7**

Ar ôl gwerthuso'r SQs, rhaid i S4C lunio rhestr fer o ymgeiswyr (o leiaf 5, ar yr amod bod digon o ymgeiswyr addas ar gael) a gaiff eu gwahodd i dendro ar sail yr ymatebion gorau i'r SQs.

Yna rhaid i S4C anfon llythyr at bob ymgeisydd ar y rhestr fer i’w gwahodd i ddarparu ymateb llawn i’r GID a’u hatgoffa bod y GID ar gael ar wefan S4C a GwerthwchiGymru a nodi unrhyw newidiadau i’r GID (lle’n berthnasol).

Rhaid i'r GID nodi'r meini prawf a ddefnyddir i werthuso'r tendrau a'r pwysoliad a roddir i bob maen prawf gwerthuso.

Rhaid anfon llythyr at bawb nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr fer i'w hysbysu na chânt eu gwahodd i dendro a’r rhesymau pam eu bod yn aflwyddiannus ar y cam SQ.

↓

**Cam 8**

- Nid yn gynt na 30 diwrnod cyfan ar ôl anfon y gwahoddiad i dendro i

Rhaid nodi'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno tendrau yn y GID. Ni all y terfyn amser fod yn gynt na 30 diwrnod ar ôl anfon y GID, ar yr amod bod y ddogfennaeth ar gael yn electronig.

Rhaid i ddau berson agor pob tendr a dderbyniwyd ar yr un pryd a logio’r tendrau a dderbyniwyd. Rhaid i bob tendr gael eu darllen a'u gwerthuso yn unol â'r meini prawf tendro a'r pwysoliad a nodwyd yn y GID.

↓

Cam 9

Ar ôl gwerthuso pob tendr a gyflwynwyd, rhaid i S4C benderfynu ar y tendrwr llwyddiannus ar sail y meini prawf a'r pwysoliad a nodwyd yn y GID.
Rhaid cadw cofnod o'r canlynol yn yr ystorfa electronig ganolog (gofynnwch i'r Tîm Cyfreithiol am fanylion):

1. Pob tendr a gyflwynir
2. Y meini prawf gwerthuso a ddefnyddiwyd (yn unol â'r rhai a nodwyd yn y gwahoddiad i dendro)
3. Cyfanswm y marciau a ddyfarnwyd i bob maen prawf gwerthuso ar gyfer pob tendr
4. Rheswm dros ddewis y tendrwr llwyddiannus - hwn fydd y tendrwr sydd wedi cael y nifer fwyaf o farciau yn y broses werthuso.
5. Gwybodaeth arall i'w gadw yn unol â thempled safonol S4C

Cam 10

Y llofnodwr perthnasol i gymeradwyo penderfyniad y panel gwerthuso a'i gofnodi gan ddefnyddio'r Ffurflen Dyfarnu Tendr (Atodiad 3).

Cam 11

Rhaid cysylltu â phob tendrwr a gynigodd SQ ond a fu'n aflwyddiannu yn dweud wrthynt:

1. Y rheswm pam nad oedd y tendrwr yn llwyddiannus
2. Enw'r tendrwr llwyddiannus
3. Sgôr y tendrwr llwyddiannus
4. Y meini prawf gwerthuso ar gyfer gwobrwyo'r cytundeb (rhaid i'r rhain fod yr un rhai a nodwyd yn y GID)
5. Y rheswm dros wneud y penderfyniad, gan gynnwys nodweddion a buddion cymharol y tendr llwyddiannus
6. Y dyddiad pan fydd y cyfnod segur yn dod i ben ac unrhyw fater arall a all effeithio'r fath ddyddiad.

Gelwir yr hysbysiad hwn yn Hysbysiad Dyfarnu'r Penderfyniad.

Cam 12
- Nid yn gynt na 10 **diwrnod ar ôl anfon** Hysbysiad Dyfarnu'r Penderfyniad

Llofnodir y cytundeb. Ni all hyn fod yn gynt na 10 diwrnod ar ôl anfon Hysbysiad Dyfarnu'r Penderfyniad, ar yr amod y caiff ei anfon yn electronig.

Cadarnhau'r archeb gyda'r cyflenwr drwy Idocs. Cyflenwr i nodi'r PO ar bob anfoneb.

Cam 13

Anfon Hysbysiad Dyfarnu'r Cytundeb i FTS o fewn 30 diwrnod o lofnodi'r Cytundeb.

**Atodlen 1**

---

---

**Ffurflen Hysbysu Tendr** **[Dyddiad drafftio/Date of drafting]**
**Tender Notification Form**

---

| | |
|---|---|
| **Manylion** **Details** | |
| | |
| **Adran/Department** | |
| **Arweinydd y tendr/Tender Lead** | |
| **Teitl y Tendr** **Tender Title** | |
| **Disgrifiad/Sgôp y gwaith** **Description/Work scope** | |
| **Oes angen cyhoeddi ar wasanaeth *Find a Tender*?** **Is it necessary to publish on the *Find a Tender* service? Process** | **Oes/Nac oes** **Yes/No** |
| **Dyddiad/Cyfnod y cytundeb** **Date/Term of contract** | |
| **Dyddiad cyhoeddi'r gwahoddiad i dendr** **Publication date of ITT** | |
| **Cyllideb** **Budget** | |
| **Ffurflen i'w gymeradwyo erbyn** **Approval form required by** | |
| **Dyddiad arfaethedig cyhoeddi'r tendrwr llwyddiannus** **Target date of announcement of successful tenderer** | |

| **Llofnodwr awdurdodedig/Authorised signatory** |
|---|
| **Dyddiad** **Date** |

**Copïau Copies**

Gwreiddiol i'w gadw gan y Rheolwr Prosiect. Original to be kept by the Project Manager

**Atodlen 2**

**Awdurdod Tendr/Cais am Bris Cyfyngedig**
(*I'w ddefnyddio mewn amgylchiadau eithriadol yn unig***)**
**Limited Tender/Quote Authority**
*(To be used in exceptional circumstances only)*

| **Manylion** Details | |
|---|---|
| **Adran/Arweinydd Tendr** Department/Tender Lead | |
| **Teitl y Ddarpariaeth** Title of provision | |
| **Cwmni** Company | |
| **Cyfiawnhad dros dendr cyfyngedig/cais am bris unigol– rhaid nodi'r rhif EC perthnasol ac esbonio pam ei fod yn berthnasol** Justification for limited tender/ single quote–the relevant EC number must be noted along with an explanation as to why it's relevant | |
| **Y gwasanaeth** Service | |
| **Cyfnod y Cytundeb** Term of Contract | |
| **Pris** Price | |
| **Amlinelliad/ gwybodaeth Ychwanegol (e.e. cytundebau eraill gyda'r cwmni; unrhyw wrthdaro buddiannau)** Outline/Additional information (e.g. other contracts with the company; any conflict of interest) | |

| |
|---|
| **Y Prif Weithredwr (neu Ddirprwy Awdurdodedig neu, lle mae'r Prif Weithredwr yn arwain y broses gaffael, aelod anweithredol o Fwrdd Unedol S4C ac eithrio unrhyw aelod o'r Pwyllgor Archwilio)** Chief Executive (or Authorised Deputy or, where the Chief Executive is the contract lead, a non-executive member of the S4C Unitary Board excluding any member of the Audit Committee) |

| | |
|---|---|
| **Llofnod** Signature | **Dyddiad** Date |

**Copïau** Copies

**Gwreiddiol i'w gadw gan y Rheolwr Prosiect.** Original to be kept by the Project Manager

**Atodiad 3**

**FFURFLEN DYFARNU CONTRACT**

**I GOFNODI PENDERFYNIADAU A WNEIR DAN DREFNAU CAFFAEL NWYDDAU A GWASANAETHAU S4C**

| | |
|---|---|
| **Teitl y Tendr** | |
| **Gwasanaethau a Gaffaelwyd** | |
| **Gwerth y Contract** | |
| **Hyd** | |
| **Gweithdrefn Gaffael (nodwch rif y weithdrefn a ddefnyddiwyd)** | ***Nodiadau:***<br>• ***Gweithdrefn 1: llai na £7.5k heb gynnwys TAW, ymchwil y farchnad;***<br>• ***Gweithdrefn 2: £7.5k-£50k heb gynnwys TAW - 3 dyfynbris***<br>• ***Gweithdrefn 3: £50k heb gynnwys TAW-£231,477 yn cynnwys TAW – Tendrau agored, trwy wahoddiad neu sengl***<br>• ***Gweithdrefn 4: £231,477 gan gynnwys TAW ac uwch – Tendr agored*** |
| **Enw'r darparwr(darparwyr) sydd i'w b/penodi** | |

**Cwblhewch yr adran berthnasol yn unol â pha weithdrefn gaffael a ddefnyddiwyd**

**Os defnyddiwyd gweithdrefn 1:**

**Disgrifiwch yr ymchwil a wnaed a rhowch grynodeb o'r rhesymau dros benodi'r darparwr(wyr) llwyddiannus (cadwch gopi o'ch ymchwil yn yr hwb tendrau)**

| |
|---|
| |

| |
|---|
| **Arwyddwyd (deiliad y gyllideb):** |
| **Enw:** |
| **Teitl:** |
| **Dyddiad:** |

**Os defnyddiwyd gweithdrefn 2:**

***Cwblhewch y canlynol (cadwch gopi o'r gwahoddiad i ddarparu dyfynbris a'r dyfynbris ei hun yn yr hwb tendrau)***

| | Enw | Swm |
|---|---|---|
| **Dyfynbris 1** | | |
| **Dyfynbris 2** | | |
| **Dyfynbris 3** | | |
| **Rhowch y rhesymau os nad yw'r dyfynbris isaf yn llwyddiannus** | | |
| **Unrhyw sylwadau eraill (e.e. defnyddio awdurdod tendro/dyfynbris cyfyngedig)** | | |

| |
|---|
| **Arwyddwyd (deiliad y gyllideb):** |
| **Enw:** |
| **Teitl:** |
| **Dyddiad:** |

**Os defnyddiwyd gweithdrefn 3:**

***Atodwch:***

1. ***Cynllun marcio;***
2. ***Meini Prawf Asesu a Phwysoliad***
3. ***Taflen sgorio ar gyfer pob cynigydd***

***Cwblhewch y canlynol os gwelwch yn dda:***

| | |
|---|---|
| **Aelodau'r panel asesu** | |
| **Math o dendr (agored, trwy wahoddiad neu sengl)** | |
| **Os yw trwy wahoddiad neu'n sengl, a yw hyn wedi'i awdurdodi yn unol â Gweithdrefn 3?** | |
| **Os nad yw'r daflen sgorio'n cynnwys esboniad naratif o'r sgoriau, rhowch grynodeb yma.** | |

**Arwyddwyd (deiliad y gyllideb):**

**Enw:**

**Teitl:**

**Dyddiad:**

Datganiad gan lofnodwr annibynnol (aelod o'r Tîm Rheoli neu CTO): Rwy'n cadarnhau fy mod yn rhesymol fodlon: (i) bod y weithdrefn gaffael gywir wedi'i dilyn; (ii) bod gofynion y weithdrefn berthnasol wedi eu bodloni; (iii) os oes unrhyw randdirymiadau wedi cael eu defnyddio, maent wedi cael eu hawdurdodi gan y Prif Swyddog Gweithredol neu lofnodwr awdurdodedig arall (yn unol â'r polisi) yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen tendr/dyfynbris gyfyngedig; (iv) bydd S4C yn cael y gwerth gorau, yn enwedig (mewn achosion lle nad y cais llwyddiannus sy'n cynnig y pris isaf) bod y seiliau dros benodi'r cynigydd llwyddiannus yn rhesymol ac yn briodol; a (v) nid oes unrhyw amgylchiadau eraill yn hysbys i S4C (neu y dylid yn rhesymol fod yn hysbys i S4C) pam y byddai'n amhriodol penodi'r cynigydd dan sylw (e.e. gwrthdaro buddiannau).

**Llofnodi:**

**Enw:**

**Teitl:**

**Dyddiad:**

**<u>Os defnyddiwyd gweithdrefn 4:</u>**

***Atodwch:***

1. ***Cynllun marcio;***
2. ***Meini Prawf Asesu a Phwysoliad***
3. ***Taflen sgorio ar gyfer pob cynigydd***

***Cwblhewch y canlynol os gwelwch yn dda:***

| | |
|---|---|
| **Aelodau'r panel asesu** | |
| **Os nad yw'r daflen sgorio'n cynnwys esboniad naratif o'r sgoriau, rhowch grynodeb yma.** | |

**Arwyddwyd (deiliad y gyllideb):**

**Enw:**

**Teitl:**

**Dyddiad:**

Datganiad gan lofnodwr annibynnol (aelod o'r Tîm Rheoli neu CTO): Rwy'n cadarnhau fy mod yn rhesymol fodlon: (i) bod y weithdrefn gaffael gywir wedi'i dilyn; (ii) bod gofynion y weithdrefn berthnasol wedi eu bodloni; (iii) os oes unrhyw randdirymiadau wedi cael eu defnyddio, maent wedi cael eu hawdurdodi gan y Prif Swyddog Gweithredol neu lofnodwr awdurdodedig arall (yn unol â'r polisi) yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen tendr/dyfynbris gyfyngedig; (iv) bydd S4C yn cael y gwerth gorau, yn enwedig (mewn achosion lle nad y cais llwyddiannus sy'n cynnig y pris isaf) bod y seiliau dros benodi'r cynigydd llwyddiannus yn rhesymol ac yn briodol; a (v) nid oes unrhyw amgylchiadau eraill yn hysbys i S4C (neu y dylid yn rhesymol fod yn hysbys i S4C) pam y byddai'n amhriodol penodi'r cynigydd dan sylw (e.e. gwrthdaro buddiannau).

**Llofnodi:**

**Enw:**

**Teitl:**

**Dyddiad:**